# PEEL: Effeithlonrwydd yr heddlu 2015

Archwiliad o Heddlu De Cymru



Hydref 2015

© HMIC 2015

ISBN: 978-1-78246-915-5

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

# Cynnwys

**Trosolwg – Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?** .......... **4**

Dyfarniad cyffredinol .......... 4

Crynodeb .......... 4

**Rhifau'r heddlu** .......... **7**

**Cyflwyniad** .......... **9**

Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw? .......... 9

Pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw amdano? .......... 10

Pa mor dda mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw? .......... 10

Pa mor dda mae gwasanaethau'r heddlu'n bodloni'r galw gan y cyhoedd? .......... 11

Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli galw? .......... 14

Pa mor dda mae'r heddlu yn monitro a deall allbynnau, canlyniadau a chostau? .......... 15

Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio dulliau gwaith newydd i wella gwasanaethau? .......... 16

Crynodeb o ganfyddiadau .......... 18

**Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?** .......... **19**

Pa mor dda mae model presennol yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol? .......... 19

Pa mor dda mae model gweithlu rhagweledig yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol? .......... 21

Crynodeb o ganfyddiadau .......... 22

**Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?** .......... **24**

A yw'r heddlu wedi cyflawni ei ofynion arbedion a chydbwyso'r gyllideb ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant a 2014/15? .......... 24

Pa mor dda mae'r heddlu wedi cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2015/16? .......... 26

Sut mae'r heddlu wedi uchafu cyfleoedd cyllido eraill? .......... 26

Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli gwariant? .......... 28

Pa mor dda mae cynlluniau ariannol yr heddlu yn adlewyrchu'r amcanion a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a throseddu'r PCC? ..... 30

Pa mor dda mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth ariannol amserol a pherthnasol i swyddfa'r comisiynydd heddlu a throseddu (OPCC) ac a ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol? ..... 30

Faint mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer arbedion pellach posibl wedi eu datblygu? 31

Crynodeb o ganfyddiadau ..... 32

**Atodiad A – Dyfarniadau HMIC ..... 33**

**Atodiad B – Rhagor o wybodaeth ynghylch y data yn ffigurau 3, 4, 5 a 7 ..... 34**

# Trosolwg – Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

## Dyfarniad cyffredinol[1]

**Da**

Canfu HMIC bod Heddlu De Cymru yn barod i wynebu ei heriau ariannol yn y dyfodol. Trwy reolaeth ariannol gadarn ac ymroddiad i welliant parhaus, mae wedi llwyddo i leihau ei wariant dros y cyfnod adolygiad o wariant diwethaf, ac mae'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer heriau ariannol yn y dyfodol. Yn rhaglen archwiliad gwerth am arian y llynedd, a ystyriodd sut oedd heddluoedd wedi bodloni her y cyfnod adolygiad o wariant cyntaf, dyfarnwyd bod Heddlu De Cymru yn dda.

## Crynodeb

Mae HMIC yn barnu bod Heddlu De Cymru yn dda. Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth helaeth o'i alw presennol a galw a ragwelir ar ei wasanaethau. Mae'r heddlu'n cydnabod bod cynnal y model gweithredu presennol gyda 2,800 o swyddogion yr heddlu yn cyflwyno risgiau ariannol os na chyflawnir yr arbedion disgwyliedig, ond mae wedi cyflawni cynllunio senario ac mae ganddo gynlluniau ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

Mae trefniadau Heddlu De Cymru i baru adnoddau i alw yn drawiadol, ac mae'r heddlu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn asesu'r galwadau arno. Mae hyn wedi caniatáu i'r heddlu leihau costau tra'n gwella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu i'r cyhoedd, fel y gwelir trwy ei ganlyniadau boddhad dioddefwyr gwych.

Mae model gweithredu presennol yr heddlu, a weithredwyd yn 2010, wedi gweithio'n dda iawn. Diolch i fuddsoddiadau mewn technoleg newydd, mae wedi gallu lleihau'r nifer o unedau rheolaeth sylfaenol (BCU) o chwech i bedwar, a thimau cymdogaeth o 30 i 19. Mae'r enillion effeithlonrwydd hyn wedi caniatáu i'r heddlu leihau niferoedd swyddogion yr heddlu o 3,100 i 2,800. Cyflawnwyd hyn yn erbyn arbedion o £33m, neu tua 11 y cant o gyllideb refeniw gros blynyddol 2010/11, yn y pedair blynedd i 2014/15.

Mae gan yr heddlu hanes da o reolaeth ariannol ac mae mewn safle da i daclo'r galwadau ariannol presennol ac yn y dyfodol arno. Mae'r heddlu wedi gosod cyllidebau cytbwys ac wedi cyflawni ei darged arbedion ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2014/15. Mae wedi cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2015/16, yn seiliedig ar

[1] Rhagorol, Da, Angen gwelliant neu Annigonol – gweler Atodiad A.

dybiaethau doeth nad ydynt yn dibynnu ar leihau ei gronfeydd wrth gefn. Mae arbedion eisoes wedi eu cyflawni ac mae cynlluniau ar gyfer cyflawni gweddill yr arbedion hyn wedi eu datblygu'n dda.

Mae Heddlu De Cymru wedi bod yn mynd ar drywydd pob cyfle ar gyfer cyllid atodol, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn yn hynny o beth. Er enghraifft, ar gyfer blynyddoedd 2014/15 a 2015/16 mae'r heddlu wedi gwneud ceisiadau Cronfa Arloesi'r Heddlu llwyddiannus, yn dod i gyfanswm o bron i £5m.

| Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw? | Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu? | Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir? |
|---|---|---|
| **Rhagorol** | **Da** | **Da** |
| Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth helaeth o raddfa a natur y galw mae'n wynebu, ac mae'n cyflawni gwaith pellach gyda phartneriaid i nodi galwadau newydd sy'n codi neu rai cudd.<br><br>Mae gan yr heddlu drefniadau gorchwyl a rheoli galw cadarn ar waith i baru adnoddau a galw, ac mae'n cydnabod yr angen i barhau i alinio adnoddau i alwadau newidiol.<br><br>Mae gan yr heddlu raddiad boddhad dioddefwyr o 88.3 y cant, un o'r uchaf yn y wlad. Mae hyn yn arddangos ymroddiad gan y PCC a Heddlu De Cymru i osod y dioddefwr yn ganolog i bopeth mae'r | Mae model gweithredu presennol yr heddlu, a weithredwyd yn 2010, wedi gweithio'n dda iawn. Cafwyd lleihad mewn troseddau, cynnydd mewn canfyddiadau, a gwellhad yn hyder a boddhad y cyhoedd.<br><br>Mae'r heddlu wedi buddsoddi mewn technoleg newydd sydd wedi ei alluogi i leihau'r niferoedd o BCUs a thimau cymdogaeth. Mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau niferoedd swyddogion yr heddlu o 3,148 i 2,864.<br><br>Mae Heddlu De Cymru mewn safle da i barhau i fodloni ei alw rhagweledig, gofynion sefydliadol ac | Mae gan Heddlu De Cymru hanes cryf o fonitro gwariant a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Mae'r heddlu wedi gosod cyllidebau cytbwys ac wedi cyflawni ei darged arbedion ar gyfer y pedair blynedd at 2014/15. Roedd arbedion dros y cyfnod hwn yn dod i gyfanswm o £33m, neu tua 11 y cant o'i wariant refeniw blynyddol gros yn 2010/11.<br><br>Mae cyllideb yr heddlu ar gyfer 2015/16 yn seiliedig ar dybiaethau doeth. Mae'r heddlu mewn safle da i gyflawni arbedion o £7.4m trwy ei raglen newid a heb fod angen defnyddio cronfeydd. Mae'r heddlu wedi bod yn mynd ar drywydd pob cyfle ar gyfer cyllid atodol, ac wedi bod |

| | | |
|---|---|---|
| heddlu yn ei wneud.<br><br>Mae rheolaeth yr heddlu o alw eisoes yn dda, ond mae'n cael ei hybu ymhellach wrth iddo barhau i weithredu dysgu parhaus o'i ddadansoddiad o alw, gyda data wedi ei rannu ar draws asiantaethau partner.<br><br>Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth wych o allbynnau, canlyniadau a chostau trwy gyfarfodydd cyllideb a pherfformiad misol, gyda llywodraethu ariannol cryf yn ategu hyn.<br><br>Mae Heddlu De Cymru yn llu blaengar iawn sydd, trwy'r prif gwnstabl, yn ymroddedig i wella ei ddulliau gwaith i gyflawni gwell gwasanaethau i'r cyhoedd. | ariannol gyda'i fodel gweithredu uwch cyfredol.<br><br>Mae'r heddlu yn credu y bydd angen oddeutu 2,864 o swyddogion yr heddlu i fodloni galw parhaus a rhagweledig. Mae hefyd yn cydnabod bod angen alinio ei fodel gweithredu rhagweledig i gyllid sydd ar gael, sydd ar hyn o bryd yn dangos bwlch o £23.4m ym Mawrth 2019. Mae'r heddlu wedi casglu y gellir cynnal y model gweithredu presennol trwy fuddsoddi mewn technoleg newydd, lleihad mewn galw, a chynyddu sgiliau ei swyddogion yr heddlu, ac mae'n credu y gallai hyn gynhyrchu arbedion o 10 y cant ar alw (neu tua £25m y flwyddyn).<br><br>Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod cynnal y model gweithredu presennol gyda 2,864 o swyddogion yr heddlu yn cyflwyno risgiau ariannol os nad chyflawnir yr arbedion disgwyliedig, od mae wedi cyflawni cynllunio senario ac mae ganddo gynlluniau ar waith i liniaru yn erbyn y risgiau hyn. | yn llwyddiannus iawn.<br><br>Mae cynlluniau'r comisiynydd heddlu a throsedd (PCC) a'r prif gwnstabl wedi eu halinio'n agos. Mae'r PCC a'r prif gwnstabl yn derbyn gwybodaeth perfformiad ariannol rheolaidd, gydag adroddiadau wedi eu cynhyrchu yn chwarterol.<br><br>Mae'r heddlu wedi nodi arbedion pellach o £8.1m ar gyfer y tair blynedd hyd at 2018/19. Fodd bynnag, mae cynlluniau yn dal i gael eu datblygu i lenwi'r bwlch cyllideb o £23.4m sy'n weddill ar gyfer 2018/19. Mae'r heddlu yn cydnabod graddfa arwyddocaol yr her ariannol ac mae'n hyderus y dylai ei raglen newid ei alluogi i ryddhau'r arbedion gofynnol. Mae wedi cwblhau cynllunio senario i asesu risgiau ac opsiynau ac mae'n datblygu cynlluniau at raid, gan gynnwys newidiadau i'r model gweithlu presennol. Mae ystyriaeth gynnar o'r risgiau hyn a mesurau lliniarol posibl yn arddangos agwedd flaengar yr heddlu. |

## Rhifau'r heddlu

### Sefyllfa ariannol

| | £m | % o Wariant Refeniw Gros (GRE) |
|---|---|---|
| Newid a ragwelir mewn gwariant 2015/16 i 2018/19 | -£15.6m | 5% |

Mae'n bwysig nodi bod rhai heddluoedd wedi darparu ffigurau ar gyfer arbedion yr oeddynt wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar y pwynt hwnnw, tra bod eraill wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod cyfan. O ganlyniad, efallai nad yw'r ffigwr arbedion uchod yn adlewyrchu'r arbediad llawn y bydd rhaid i'r heddlu wneud. Defnyddiwyd GRE 2014/15 yma fel llinell sylfaen.

### Darparu plismona

| | De Cymru | Cymru a Lloegr |
|---|---|---|
| Newid arfaethedig yn nifer swyddogion yr heddlu o 31 Mawrth 2015 i 31 Mawrth 2018 | +1% | -6% |
| Newid arfaethedig yng nghyfanswm gweithlu'r heddlu o 31 Mawrth 2015 i 31 Mawrth 2018 | Ddim ar gael | -6% |
| Arfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2010 | 89% | 89% |
| A rfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2015 | 91% | 92% |
| Cyfran arfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2018 | 91% | 92% |

## Sefydliad

| | De Cymru | England and Wales |
|---|---|---|
| Cost swyddogion yr heddlu fesul pen o'r boblogaeth yn yr heddlu o gymharu â Chymru a Lloegr (2014/15) | £115 | £115 |
| Cost gweithlu'r heddlu fesul pen o'r boblogaeth yn yr heddlu o gymharu â Chymru a Lloegr (2014/15) | £170 | £165 |

## Ystadegau allweddol

| | De Cymru | Cymru a Lloegr |
|---|---|---|
| Newid mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (ac eithrio twyll) o 31 Mawrth 2014 i 31 Mawrth 2015 | +9% | +2% |
| Newid mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (ac eithrio twyll) o'r 12 mis i 31 Mawrth 2010 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015 | -13% | -16% |
| Boddhad dioddefwyr yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 | 88.3% | 83.8% |
| Newid mewn boddhad dioddefwyr o'r 12 mis i 31 Mawrth 2011 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015 | Dim newid | Dim newid |

**Boddhad dioddefwyr:** Cyfwng hyder De Cymru +/- 0.9 y cant. Cyfwng hyder Cymru a Lloegr +/- 0.2 y cant.

Ar gyfer ffynonellau data, gweler Atodiad A yn yr Adroddiad cenedlaethol effeithlonrwydd.

# Cyflwyniad

Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai cyllid canolog i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn lleihau o 20 y cant yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015. Nawr, mewn cyfnod o ostyngiadau parhaus yn y gyllideb, mae angen i heddluoedd barhau i sicrhau arbedion tra'n canolbwyntio ar leihau troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel.

Yn rhan o'i archwiliadau blynyddol i effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL), asesodd rhaglen Effeithlonrwydd HMIC sut mae heddlu yn uchafu ar ganlyniadau o'i adnoddau sydd ar gael. Fe adolygom gynllunio ariannol a gweithlu heddluoedd tra'n archwilio cwestiynau ehangach cost, gallu a chynhyrchiant. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar y cwestiwn cyffredinol, 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?'

I ateb y cwestiwn hwn fe edrychom ar dri maes:

- Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?
- Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithredu?
- Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?

Yn ystod ein harchwiliad, fe gasglom ddata a chynlluniau o heddluoedd, holi'r cyhoedd i weld a oeddynt wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth a dderbyniont a chyflawni archwiliadau yn yr heddlu. Cynhaliom gyfweliadau gyda phrif gwnstabliaid a phrif swyddogion sy'n gyfrifol am gyllid, newid sefydliadol, adnoddau dynol a pherfformiad ym mhob heddlu a chynnal grwpiau ffocws o swyddogion a staff o amrywiol raddau a rhengoedd, ac ymweld yn ddirybudd â gorsafoedd heddlu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r casgliadau o'r archwiliad eang hwn o Heddlu De Cymru.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?

Archwiliodd HMIC sut mae'r heddlu yn deall y galwadau am ei wasanaethau, a sut mae'n dyrannu ei staff a'r adnoddau ariannol i fodloni'r galwadau hynny. Yna fe asesom a yw'r penderfyniadau hynny yn arwain at ganlyniadau da i'r cyhoedd – bod yr heddlu'n weledol a'u bod yn mynychu'n brydlon os y'i gelwir, eu bod yn brwydro troseddau ac yn cadw cymunedau'n ddiogel, a bod dioddefwyr yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniont.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw amdano?

Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth ragorol o raddfa a natur y galw mae'n wynebu, ac mae'n cyflawni gwaith pellach gyda phartneriaid i nodi galwadau newydd sy'n codi neu rai cudd.

Er enghraifft, mae'r heddlu wedi cyflawni dadansoddiad manwl o alwadau a dderbyniodd yn ei ganolfan gwasanaethau cyhoeddus[2] (PSC) dros y pum mlynedd diwethaf, a thrwy giplun un diwrnod a gymerwyd ar 13 Mawrth 2015. O ganlyniad, fe sefydlwyd mai dim ond naw y cant o'r galwadau a dderbyniwyd sydd gan y cyhoedd eisiau adrodd am droseddau; mae'r gweddill yn bennaf yn alwadau am gyngor gan ddioddefwyr, y cyhoedd, adrannau mewnol a phartneriaid. Mae gan yr heddlu nawr ddarlun cliriach o'r nifer o alwadau argyfwng ac nad ydynt yn argyfwng a phatrwm y galw trwy gydol y diwrnod, ac mae'n darparu adnoddau i'r PSC yn unol â hynny.

Mae'r dadansoddiad hwn wedi ei ategu ymhellach trwy arolygon cymdogaeth gan swyddogion cymorth cymunedol (PCSO), ac ymchwil academaidd i feysydd troseddau newydd megis troseddau digidol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. O ganlyniad, mae Heddlu De Cymru wedi ail alinio adnoddau i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r adran diogelu'r cyhoedd, gan gynnig mwy o amddiffyniad i'r cyhoedd. Mae gan yr heddlu hefyd drefniadau i dderbyn adborth gan PCSOs a'r cyhoedd ar faterion sy'n codi ar lefel leol.

Mae'r heddlu'n gweithio'n agos gyda phartneriaid i gael gwell dealltwriaeth o'r galwadau ganddynt (er enghraifft, y GIG trwy iechyd meddwl ac achosion argyfwng ysbytai, ac achosion yn y rhaglen Teuluoedd Cythryblus). Mae Heddlu De Cymru hefyd wedi adolygu galw trwy ei wasanaeth desg flaen a lleihau oriau agor yn y lleoliadau hynny ble mae galw yn lleihau. Mae wedi sicrhau bod y cyhoedd yn dal i allu cysylltu â'r heddlu trwy ddulliau amgen, megis trwy ffôn a gwella mynediad i gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r heddlu yn bwriadu parhau i adeiladu ar y ddealltwriaeth a sicrhawyd a'r gwersi a ddysgwyd am alwadau yn ei ddadansoddiad ym Mawrth 2015 trwy arolwg ciplun arfaethedig arall ym Mehefin 2015.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw?

Mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw yn llwyddiannus ac yn gwneud i bobl De Cymru deimlo'n fwy diogel. Mae gan yr heddlu drefniadau gorchwyl a rheoli galw cadarn ar waith i baru adnoddau a galw ac mae'n cydnabod yr angen i barhau i alinio adnoddau i alwadau newidiol ar ei wasanaethau.

[2] Cyfleuster ble mae atebwyr galwadau yn ateb galwadau ffôn gan y cyhoedd, yn pennu amgylchiadau'r digwyddiad, penderfynu beth ellir ei wneud, ac yn ysgogi'r ymateb cychwynnol.

Mae Heddlu De Cymru yn gweithredu system rheoli adnoddau cwbl integredig (FIRMS), sy'n caniatáu i'r heddlu adolygu ble mae'n lleoli ei adnoddau yn ddyddiol yn defnyddio technoleg GPS. Gall y rhai sy'n ateb galwadau yn y PSC nodi pa staff sydd ar gael, pa sgiliau sydd ganddynt, a p'un a ellir eu rhyddhau yno neu beidio. Mae lleoli yn seiliedig ar angen ar draws yr heddlu, yn hytrach na chael ei gyfyngu gan ffiniau unedau rheolaeth bwrdeistref. Mae delwyr galwadau yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar egwyddor 'Tasgio heb Ofyn', ble mae'r adnodd agosaf, mwyaf priodol i'r digwyddiad yn cael ei ddanfon yno. Mae swyddogion yr heddlu yn ymwybodol iawn eu bod yn adnoddau ledled yr heddlu ac felly, yn ddibynnol ar flaenoriaethau, efallai y byddant yn cael eu dyrannu ble mae'r angen mwyaf amdanynt.

Mae modelu rhagfynegol o'r gronfa ddata, sy'n ystyried cyfnodau galw brig, yn cyd-fynd â threfniadau lleoli ac yn sicrhau bod adnoddau sydd ar gael yn cael eu rheoli'n rhagweithiol trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys lleoli adnoddau i fodloni galwadau yn codi o statws prifddinas a digwyddiadau mawr Caerdydd. Mae hyn wedi caniatáu i Heddlu De Cymru reoli'r Gemau Olympaidd, Uwchgynhadledd NATO a thwrnameintiau'r Rygbi'r 6 Gwlad yn effeithiol.

Mae comisiynydd heddlu a throseddu (PCC) yr heddlu wedi buddsoddi mewn cydweithio gyda sefydliadau eraill; mae hyn wedi arwain at leihad sylweddol mewn digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB). Enghraifft arall o gydweithio gan yr heddlu yw sefydlu canolfan 'Pwynt Cymorth' amlasiantaethol Abertawe, y mae'r heddlu'n amcangyfrif sydd wedi cefnogi dros 400 o bobl ifanc fregus yn yr economi hwyr y nos.

Yn Hydref 2014, fe weithiodd Heddlu De Cymru gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill i sefydlu canolfan ddiogelu amlasiantaethol (MASH) yn ei uned reoli fwrdeistrefol Gogleddol. Mae hyn wedi darparu amgylchedd ble mae nifer o sefydliadau, yn cynnwys yr heddlu, yn cydweithio a rhannu gwybodaeth i ddiogelu pobl fregus.

## Pa mor dda mae gwasanaethau'r heddlu'n bodloni'r galw gan y cyhoedd?


I asesu ymateb yr heddlu i alw'r cyhoedd, ystyriodd HMIC ffigurau a chyfraddau troseddau yn Ne Cymru; lefelau boddhad dioddefwyr; a p'un a yw'r heddlu yn defnyddio dulliau gwahanol o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Er nad yw troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn fesur cyflawn o bell ffordd o'r galw mae heddlu yn wynebu, mae'n darparu dangosydd cymharol o berfformiad ar draws yr holl heddluoedd. Adroddir cyfraddau troseddau fel nifer o droseddau fesul 1000 o'r boblogaeth ym mhob ardal heddlu i ganiatáu ar gyfer cymharu rhwng ardaloedd. Mae cyfanswm troseddau a gofnodwyd yn cynnwys troseddau seiliedig ar ddioddefwyr (e.e. lladrad) a throseddau heb fod yn seiliedig ar ddioddefwr (e.e.

meddiant o gyffuriau). Dangosodd dau draean o heddluoedd gynnydd blynyddol yng nghyfanswm troseddau a gofnodwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Efallai bod y cynnydd mewn hwn mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu wedi ei effeithio gan y ffocws o'r newydd ar ansawdd a chydymffurfiad cofnodion troseddau ers i HMIC gyflawni archwiliad cenedlaethol o gywirdeb data troseddau yn 2014.

Yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 roedd gan Dde Cymru gyfradd troseddau seiliedig ar ddioddefwr o 60.0 a chyfradd troseddau nad ydynt yn seiliedig ar ddioddefwr o 9.1 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynrychioli lleihad (12 y cant) yn y gyfradd troseddau dioddefwyr a chynnydd (14 y cant) yn y gyfradd troseddau heb ddioddefwyr ers dechrau'r adolygiad o wariant yn 2010. Yn ystod yr un cyfnod roedd gan Gymru a Lloegr gyfradd troseddau seiliedig ar ddioddefwyr ac nad yw'n seiliedig ar ddioddefwyr o 55.2 a 6.9 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno. Mae hyn yn cynrychioli lleihad yn y ddwy gyfradd troseddau o 15 y cant ac 19 y cant yn y drefn honno ers dechrau'r adolygiad o wariant. Gellir gweld graddfa'r newid mewn cyfraddau troseddau yn Ffigwr 1.

**Ffigwr 1: Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fesul 1,000 o'r boblogaeth o Dde Cymru yn y 12 mis i 31 Mawrth 2010 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015, o gymharu â Chymru a Lloegr**




**Ffynhonnell: Defnyddir ystadegau trosedd y Swyddfa Gartref ac amcangyfrifon poblogaeth canol 2013 yr ONS (defnyddir data poblogaeth 2013 ar draws blynyddoedd lluosog i ddatgelu gwir newid mewn troseddau a gofnodwyd, yn hytrach na newidiadau oherwydd newid poblogaeth)**

O'r rhai sydd wedi bod yn ddioddefwr troseddau yn Ne Cymru, roedd 88.3 yn fodlon gyda'u profiad cyfan gyda'r heddlu yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015.[3] Mae hyn yn uwch na'r gyfradd boddhad dioddefwyr cenedlaethol o 83.8 y cant dros yr un cyfnod amser.[4] Ni chafwyd newid arwyddocaol mewn boddhad dioddefwyr rhwng y 12 mis i 31 Mawrth 2011 a'r 12 mis i 31 Mawrth 2015 yn Ne Cymru

Mae boddhad dioddefwyr yr heddlu yn un o'r uchaf yn y wlad, ac mae wedi parhau i fod yn uchel ers 2011. Roedd gwelliant mewn perfformiad ym Mawrth 2011, pan roedd y gyfradd boddhad dioddefwyr ar gyfer y profiad cyfan yn 81.7% Mae'r heddlu wedi cynnal perfformiad trwy gydol y cyfnod 2011 i 2015, gan arddangos ei ymroddiad i sicrhau bod y dioddefwr yn ganolog i bopeth a wna. Yn arbennig o drawiadol yw pa mor hawdd yw hi i gysylltu â'r heddlu, gyda buddsoddiadau mewn technoleg yn gwneud yr heddlu yn fwy agored mewn sawl ffordd.

Bu HMIC yn monitro sut mae heddlu yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn rhan o'r archwiliad. Mae Ffigwr 2 isod yn dangos bod Heddlu De Cymru yn defnyddio ystod o ddulliau (yn cynnwys Facebook, Twitter ac E-bost) i ymgysylltu â'r cyhoedd.

[3] Cyfwng hyder De Cymru +/- 0.9 y cant.

[4] Cyfwng hyder Cymru a Lloegr +/- 0.2 y cant.

**Ffigwr 2: Dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015**

| A yw'r Heddlu yn defnyddio'r ffrydiau cyfathrebu canlynol? | |
|---|---|
| Facebook | Ydi |
| Twitter | Ydi |
| E-bost | Ydi |
| Neges testun | Nac Ydi |
| Fforwm y we | Ydi |
| Instagram | Nac Ydi |
| Ffôn lleol (nid 999 na 101) | Ydi |

**Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC**

Mae Heddlu De Cymru yn cynnal adolygiad dehongliad (COMPASS) ble gwahoddir cymunedau i gyflwyno eu teimladau a dehongliadau o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, materion lleol a pha mor dda yw'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu. Mae'r heddlu'n defnyddio'r wybodaeth hon i bennu diddordeb y cyhoedd mewn adnabod eu cymdogaeth a sut yr hoffent dderbyn yr wybodaeth hon.

Mae'r teimladau uchel o ddiogelwch yn y gymuned yn adlewyrchu ymroddiad clir yr heddlu i wasanaethu pobl De Cymru a dioddefwyr troseddau. Mae yna dystiolaeth glir bod gan y cyhoedd hyder yn y gwasanaeth plismona mae'n derbyn.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli galw?

Mae rheolaeth yr heddlu o alw am ei wasanaethau yn cael ei hybu ymhellach wrth iddo barhau i weithredu dysgu parhaus o'i ddadansoddiad o'r maes hwn, gyda data wedi ei rannu ar draws sefydliadau sector cyhoeddus. Er enghraifft, mae'r byrddau iechyd lleol a gwasanaeth ambiwlans yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i ddatblygu ymagwedd gydweithredol i gael gwell dealltwriaeth a rheolaeth o alw.

Mae'r heddlu hefyd yn gweithredu i wella ei systemau gwybodaeth a chefnogaeth i'r cyhoedd, sefydliadau sector cyhoeddus eraill a'i staff ei hun:

- ar gyfer y cyhoedd, mae'r heddlu yn bwriadu cynnig yr opsiwn i adrodd am droseddau yn electronig, ac i olrhain cynnydd ar droseddau a adroddwyd trwy wasanaeth o'r enw 'Track my Crime'. Mae hefyd wedi gwella ei system neges llais er mwyn gallu cyfeirio galwyr yn well at systemau cefnogaeth, ac i leihau'r galwadau ar swyddogion yr heddlu;

- ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus, mae'n gwneud ymgais i rannu data ble fo'n bosibl i leihau galwadau allan amhriodol neu ddyblyg. Er enghraifft, mae'r heddlu yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth ambiwlans ar benwythnosau yn

ardaloedd economi hwyr y nos Caerdydd ac Abertawe. Mae hyn wedi lleihau derbyniadau brys, trwy frysbennu dioddefwyr. Mae Heddlu De Cymru hefyd yn gweithio'n agos gydag ymddiriedolaethau iechyd meddwl i leoli a chefnogi pobl goll gydag anableddau iechyd meddwl; ac

- ar gyfer ei staff ei hun, mae'n lleihau galw trwy roi mwy o wybodaeth a'i gwneud yn hawdd i'w chyrchu ar ei ryngrwyd, sy'n cefnogi unigolion i ddarparu gwasanaethau plismona i'r cyhoedd.

Mae'r heddlu'n hyderus y gall leihau galw yn arwyddocaol trwy ymyraethau cynnar rhagweithiol. Dylai cynnydd ar wella rheolaeth galw alluogi'r heddlu i leoli adnoddau sydd ar gael yn briodol a lleihau costau ymhellach.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn monitro a deall allbynnau, canlyniadau a chostau?

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth wych o'i ddarpariaeth gwasanaeth a chostau trwy gyfarfodydd cyllideb a pherfformiad misol, gyda llywodraethu ariannol cryf yn ategu hyn.

Mae'r ddealltwriaeth hon wedi ei hybu ymhellach gan welliant proses darbodus (ymagwedd a ddefnyddir i hybu perfformiad busnes presennol trwy wella systemau a dileu gwastraff), sydd wedi ei weithredu mewn adolygiad manwl o gyfleoedd gwerth am arian a nodwyd yn y rhaglen newid. Mae gan yr heddlu hyder yn ei fethodoleg ac mae'n ei ddefnyddio i ailedrych ar rai meysydd eto, yn rhan o'i gynlluniau gwelliant parhaus. Cyflawnodd timau yn cynnwys swyddogion yr heddlu, staff cyllid ac adnoddau dynol (AD) yr adolygiadau hyn i sicrhau eu bod yn ymarferol ac na fyddant yn effeithio ar ansawdd gwasanaeth. Mae'r adolygiadau wedi eu hategu gan adolygiadau cyfoedion ac asesiadau effaith cydraddoldeb.

Mae strwythur llywodraethu cryf sy'n cynnwys swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsedd (OPCC) wedi hwyluso gwell dealltwriaeth o allbynnau, canlyniadau a chostau. Mae perfformiad yr heddlu yn cael ei fonitro trwy strwythur o gyfarfodydd adolygu efydd (gweithredol), arian (tactegol) ac aur (strategol), sy'n integreiddio rheoli galw, lleoliad adnoddau a gwybodaeth reoli a rheoli perfformiad. Mae'r PCC yn dal y prif gwnstabl yn atebol am berfformiad yr heddlu trwy gyfarfodydd bwrdd strategol deufisol.

Yn ystod y cyfnod adolygiad o wariant diwethaf (rhwng 2011/12 a 2014/15), sicrhaodd yr heddlu arbedion o £32m. Ar yr un pryd, fe wellodd ansawdd y gwasanaeth, fel y gwelwyd yn yr arolygon boddhad dioddefwyr.

Trafodir a gweithredir ar adnoddau ar draws yr heddlu ym mwrdd rheoli adnoddau'r heddlu, sydd wedi ei gadeirio ar lefel prif gwnstabl cynorthwyol gyda phennaeth pob adran a rheolwyr BCU yn mynychu.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio dulliau gwaith newydd i wella gwasanaethau?

Mae Heddlu De Cymru yn llu blaengar iawn sydd, trwy'r prif gwnstabl, yn ymroddedig i wella ei ddulliau gwaith er mwyn darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd.

Casglodd yr heddlu yn ystod y cyfnod adolygiad o wariant o 2010/11 i 2014/15 ei fod angen buddsoddi mewn technoleg newydd er mwyn sicrhau arbedion a gwella ansawdd gwasanaeth. Fel blaenoriaeth gynnar, daeth swyddogaeth y ganolfan reoli i'r canol o saith canolfan i un Canolfan Gwasanaeth Cyhoeddus, ac wedi lleihau ei unedau rheoli bwrdeistrefi o chwech i bedair.

Mae'r heddlu nawr yn symud i gam nesaf ei welliannau cam wrth gam. Mae wedi dadansoddi'r galw ar ei wasanaethau ac mae'n gwneud ymgais i leihau hyn trwy amrywiaeth o fentrau, trwy'r cyhoedd, partneriaid a'i staff ei hun.

Mae'r heddlu wedi dadansoddi ei ddata galw dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae nawr yn gallu lleoli'r staff cywir yn y man cywir ar yr adeg gywir. Defnyddir modelu rhagfynegol sy'n galluogi'r heddlu i fod yn fwy rhagweithiol hefyd i dargedu mannau trafferthus posibl, er enghraifft, lleoliadau economi hwyr y nos yng Nghaerdydd ac Abertawe ar benwythnosau. Mae'r heddlu hefyd yn alinio oriau agor mewn gorsafoedd heddlu i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ac yn hygyrch i'r cyhoedd, ac mae'n gosod desgiau cymorth i gymryd lle rhai o'r pwyntiau mynediad hyn ar y cyd â sefydliadau eraill (er enghraifft, yn swyddfeydd y cyngor yn Abertawe). Mae hefyd yn bwriadu diweddaru ei dudalennau gwe i alluogi'r cyhoedd i adrodd am droseddau, olrhain cynnydd ar droseddau a adroddwyd (gyda rhif cyfeirnod trosedd) a chlirio ymholiadau ar-lein, os yn bosibl.

Mae'r heddlu'n gweithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol, y GIG a'r sector gwirfoddol i ddelio â meysydd ble rhennir cyfrifoldeb, er mwyn lleihau galw am weithredu gan yr heddlu. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer, er enghraifft, aelodau bregus grŵp ieuenctid 18-21 oed, a gweithio gydag ysbytai i leihau galwadau yn deillio o ddigwyddiadau ar benwythnosau.

Mae cydweithrediad gyda heddluoedd eraill a phartneriaid yn faes datblygiad pwysig. Mae adolygiad ar waith ar hyn o bryd ar draws Heddlu Gwent, Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu De Cymru i nodi cyfleoedd ar gyfer rhannu gwasanaethau swyddfa gefn (er enghraifft, TG, cyllid ac AD), i leihau costau.

Mae'r heddlu yn datblygu rhaglen arloesedd FUSION IT, o ganlyniad i gais llwyddiannus am £5.5m gan y Gronfa Arloesi'r Heddlu. Bydd y rhaglen yn darparu mwy o fudoledd i'r heddlu, ehangu hygyrchedd, rhannu cudd-wybodaeth, gwella prosesau integredig a digidol, ac yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae'r heddlu yn bwriadu integreiddio Fusion gyda'r system rheoli gwybodaeth weithredol (NICHE), systemau rheolaeth a rheoli, a'r system rheoli adnoddau cwbl

integredig (FIRMS). Dylai hyn ei alluogi i wella arferion gwaith dydd i ddydd y swyddogion heddlu hyn, a chynyddu cynhyrchiant. Mae'r heddlu yn cyflwyno defnydd o dechnoleg symudol a digidol a thabledi llaw i holl swyddogion yr heddlu yn Hydref 2015. Y cynllun yw y dylai'r datblygiadau hyn alluogi swyddogion yr heddlu i weithio o bell, er mwyn iddynt allu treulio mwy o amser allan o swyddfa'r heddlu. Dylai hyn gynyddu cynhyrchiant tra'n cynnal gwelededd a hyder y cyhoedd.

Mae gwelliannau yn digwydd i fewnrwyd yr heddlu i leihau'r nifer o alwadau mewnol gan swyddogion yr heddlu i'r PSC (gofyn am gyngor a gwybodaeth). Mae staff yn derbyn hyfforddiant i'w galluogi i ddelio'n well ag ymholiadau gan y cyhoedd ac i gefnogi dioddefwyr troseddau. Dylai hyn alluogi'r heddlu i ddatrys pryderon y cyhoedd yn well ac yn gyflymach.

Yn 2014, cwblhaodd yr heddlu ei adolygiad o lety dalfa a lleihau'r nifer o gyfleusterau dalfa o 16 i bedwar, gan agor dwy ganolfan newydd ym Mhen-y-bont a Merthyr Tudful. Yn ôl gwybodaeth a ddarparwyd gan yr heddlu, galluogodd y lleihad hwn mewn ystafelloedd dalfa iddo ryddhau 22 rhingyll dalfa a sicrhau arbedion o £1.3m y flwyddyn. Mae'r ystafelloedd dalfa newydd yn defnyddio technoleg (yn cynnwys camerâu CCTV) i fonitro'r rhai sydd wedi eu cadw yn y ddalfa.

I gloi, mae defnyddio dulliau gwaith newydd yn gwneud yr heddlu yn fwy effeithiol tra'n gwella gwasanaethau i'r cyhoedd.

## Crynodeb o ganfyddiadau

**Rhagorol**

Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth helaeth o raddfa a natur y galw mae'n wynebu, ac mae'n cyflawni gwaith pellach gyda phartneriaid i nodi galwadau newydd sy'n codi neu rai cudd.

Mae gan yr heddlu drefniadau gorchwyl a rheoli galw cadarn ar waith i baru adnoddau a galw ac mae'n cydnabod yr angen i barhau i alinio adnoddau i alwadau newidiol.

Mae gan yr heddlu raddiad boddhad dioddefwyr o 88.3 y cant, un o'r uchaf yn y wlad. Mae hyn yn arddangos ymroddiad gan y PCC a Heddlu De Cymru i osod y dioddefwr yn ganolog i bopeth mae'r heddlu yn ei wneud.

Mae rheolaeth yr heddlu o alw eisoes yn dda, ond mae'n cael ei hybu ymhellach wrth iddo barhau i weithredu dysgu parhaus o'i ddadansoddiad o alw, gyda data yn cael ei rannu ar draws asiantaethau partner.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth wych o allbynnau, canlyniadau a chostau trwy gyfarfodydd cyllideb a pherfformiad misol, gyda llywodraethu ariannol cryf yn ategu hyn.

Mae Heddlu De Cymru yn llu blaengar iawn sydd, trwy'r prif gwnstabl, yn ymroddedig i wella ei ddulliau gwaith i gyflawni gwell gwasanaethau i'r cyhoedd.

## Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?


Archwiliodd HMIC sut mae Heddlu De Cymru wedi strwythuro ei weithlu (h.y. ei gyfuniad o swyddogion yr heddlu, staff a PCSOs, a'r gyfran o'r holl grwpiau hyn yn gweithio mewn swyddi rheng flaen), ac wedi asesu a oedd hyn yn fforddiadwy a chynaliadwy wrth i'r heddlu ymateb i'w her ariannol. Fe ystyriom hefyd beth mae'r heddlu yn ei wneud i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau a gallu priodol i frwydro troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel nawr ac yn y dyfodol.

### Pa mor dda mae model presennol yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?

Rhagwelodd Heddlu De Cymru gyfanswm gofyniad arbedion o £32.98m dros bedair blynedd yr adolygiad gwariant (2011/12 i 2014/15), sy'n cyfateb i 11 y cant o wariant refeniw gros 2010/11 yr heddlu. Sicrhawyd arbedion yn y cyllidebau cyflogau ac nad ydynt yn gyflogau. Ers 2010, mae Heddlu De Cymru wedi gweld lleihad o 283 o swyddogion yr heddlu, a chynnydd o 2 o staff a 76 PCSOs, cyfatebol i lawn amser (FTE). Roedd y cynnydd yn niferoedd PCSOs o ganlyniad i gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Yn Ne Cymru, cafwyd gostyngiadau yng nghyfanswm y nifer o swyddogion yr heddlu FTE dros y cyfnod 2010 i 2015, fel y gwelir yn ffigwr 3. Yn ystod y cyfnod amser hwn, mae'r gyfran o rolau rheng flaen wedi cynyddu o 89 y cant yn 2010 i 91 y cant yn 2015. Gan edrych ymlaen i 2018, mae'r heddlu yn disgwyl cynnal y gyfran hon.

**Ffigwr 3: Newidiadau arfaethedig i swyddi cyfatebol i lawn amser (FTE) swyddogion yr heddlu mewn rolau rheng flaen weithredol, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth busnes yn Heddlu De Cymru, o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018.**




**Ffynhonnell: Dychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref a chasglu data effeithlonrwydd HMIC**

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 3, gweler Atodiad B**

Mae model gweithredu presennol yr heddlu, a weithredwyd yn 2010, wedi gweithio'n dda iawn. Mae'r model wedi caniatáu i Heddlu De Cymru leihau troseddau, cynyddu canfyddiadau a gwella hyder a boddhad y cyhoedd, tra'n cyflawni cyllideb gytbwys. Mae'r heddlu yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn, yn hytrach na chymryd ei le.

Mae'r heddlu wedi buddsoddi'n drwm mewn technoleg newydd, mae wedi gallu lleihau'r nifer o unedau rheolaeth bwrdeistref (BCU) o chwech i bedwar, a thimau cymdogaeth o 30 i 19. Mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau niferoedd swyddogion yr heddlu a chyflawni arbedion.

Mae'r model gweithlu presennol yn paru galw, gofynion sefydliadol ac ariannol yn y tymor byr a chanolig. Mae Heddlu De Cymru mewn safle da o ran ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Pa mor dda mae model gweithlu rhagweledig yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?

**Ffigwr 4: Newidiadau arfaethedig mewn gweithlu FTE o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer Heddlu De Cymru o gymharu â Chymru a Lloegr**

| | Mawrth 2010 | Gwahaniaeth rhwng 2010 a 2015 | | Mawrth 2015 | Gwahaniaeth rhwng 2015 a 2018 | | Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gorllewin Swydd Efrog | Cymru a Lloegr | | Gorllewin Swydd Efrog | Cymru a Lloegr | |
| Swyddogion yr Heddlu | 3,148 | -9% | -12% | 2,864 | 1% | -6% | 2,900 |
| Staff yr Heddlu | 1,810 | 0% | -19% | 1,812 | -100% | -6% | 0 |
| Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu | 335 | 23% | -27% | 411 | -1% | -11% | 406 |
| **Cyfanswm gweithlu** | **5,293** | **-4%** | **-15%** | **5,087** | **-35%** | **-6%** | 3,306 |

**Ffynhonnell: Casglu data archwiliadau effeithlonrwydd HMIC ac ystadegau gweithlu'r Swyddfa Gartref.**

Nid yw'r heddlu wedi darparu data ar gyfer niferoedd staff hyd at 2018, gan adrodd bod rhifau'r prosiect yn dal i gael eu cwmpasu.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 3, gweler Atodiad B.

Yn seiliedig ar ei hanes, mae Heddlu De Cymru mewn safle da i barhau i fodloni ei alw rhagweledig, gofynion sefydliadol ac ariannol gyda'i fodel gweithredu uwch cyfredol.

Mae'r heddlu yn credu y bydd yn parhau i angen oddeutu 2,800 o swyddogion yr heddlu i fodloni galw presennol a rhagweledig. Mae hefyd yn cydnabod bod angen alinio ei fodel gweithredu rhagweledig i gyllid sydd ar gael, sydd ar hyn o bryd yn dangos bwlch o £23.4m ym Mawrth 2019. Mae'r heddlu wedi casglu y gellir cynnal y model gweithredu presennol trwy fuddsoddi mewn technoleg newydd, lleihad mewn galw, cynyddu sgiliau ei swyddogion yr heddlu. Mae'n credu y gallai hyn gynhyrchu arbedion o 10 y cant ar alw (neu tua £25m y flwyddyn).

Mae Heddlu De Cymru hefyd yn cydnabod y bydd angen i'r model adlewyrchu newidiadau mewn galw gan y cyhoedd (er enghraifft, cynnydd o ganlyniad i ffynonellau trosedd newydd megis troseddau digidol a seiber). Mae gan yr heddlu

gynlluniau manwl i gyflawni'r gwelliannau hyn trwy ei 'fodel gweithredu targed' i 2020, a'r rhaglen cefnogi newid.

Mae gwaith yn parhau ar draws yr heddlu ar newid ffrydiau gwaith i alluogi Heddlu De Cymru i aros o fewn y gyllideb. Ym mhob achos, mae hyn yn cynhyrchu modelau gweithlu newydd, mwy effeithlon ym mhob maes gweithgaredd. Mewn rhai achosion, aethpwyd yn ôl at y modelau llif gwaith unigol ddwywaith, neu hyd yn oed dair gwaith, i nodi arbedion pellach. Yna fe gymharir agreg y gweithgaredd hwn gydag amcanion arbedion yr heddlu. Mae ailfodelu deinamig y model gweithredu yn hysbysu'r cynlluniau recriwtio neu leihau swyddi.

Mae'r heddlu'n cydnabod bod cynnal y model gweithredu presennol gyda 2,800 o swyddogion yr heddlu yn cyflwyno risgiau ariannol os na chyflawnir y buddion disgwyliedig, ond mae wedi cyflawni cynllunio senario ac mae ganddo gynlluniau ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

Nododd Heddlu De Cymru, o'r 2,864 swyddog heddlu FTE ar 31 Mawrth 2015, bod ychydig dan 2,800 wedi eu hariannu yn rhan o'r sefydliad, tra bod y swyddi sy'n weddill wedi eu hariannu'n allanol.

## Crynodeb o ganfyddiadau

**Da**

Mae model gweithredu presennol yr heddlu, a weithredwyd yn 2010, wedi gweithio'n dda iawn. Cafwyd lleihad mewn troseddau, cynnydd mewn canfyddiadau, a gwellhad yn hyder a boddhad y cyhoedd.

Mae'r heddlu wedi buddsoddi mewn technoleg newydd sydd wedi ei alluogi i leihau'r niferoedd o BCUs a thimau cymdogaeth. Mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi galluogi'r heddlu i leihau niferoedd swyddogion yr heddlu o 3,148 i 2,864.

Mae Heddlu De Cymru mewn safle da i barhau i fodloni ei alw rhagweledig, gofynion sefydliadol ac ariannol gyda'i fodel gweithredu uwch cyfredol.

Mae'r heddlu yn credu y bydd angen oddeutu 2,864 o swyddogion yr heddlu i fodloni galw parhaus a rhagweledig. Mae hefyd yn cydnabod bod angen alinio ei fodel gweithredu rhagweledig i gyllid sydd ar gael, sydd ar hyn o bryd yn dangos bwlch o £23.4m ym Mawrth 2019. Mae'r heddlu wedi casglu y gellir cynnal y model gweithredu presennol trwy fuddsoddi mewn technoleg newydd, lleihad mewn galw, uwch sgilio ei swyddogion yr heddlu, ac mae'n credu y gallai hyn gynhyrchu arbedion o 10 y cant ar alw, neu tua £25m y flwyddyn.

Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod bod cynnal y model gweithredu presennol gyda 2864 o swyddogion yr heddlu yn cyflwyno risgiau ariannol os nad chyflawnir yr

arbedion disgwyliedig, od mae wedi cyflawni cynllunio senario ac mae ganddo gynlluniau ar waith i liniaru yn erbyn y risgiau hyn.

O'r 2,864 swyddog heddlu FTE ar 31 Mawrth 2015, bod ychydig dan 2,800 wedi eu hariannu yn rhan o'r sefydliad tra bod y swyddi sy'n weddill wedi eu hariannu'n allanol


## Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?

Archwiliodd HMIC sut mae heddluoedd wedi sicrhau arbedion dros y cyfnod adolygiad o wariant, y cynlluniau arbedion mae heddluoedd wedi datblygu ar gyfer y dyfodol a thybiaethau'r heddlu o ran deall yr heriau ariannol i ddod. Rydym hefyd wedi asesu a oes gan heddluoedd reoliadau a llywodraethu ariannol da, ac os yw gwario yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y cynllun plismona a throseddau.

### A yw'r heddlu wedi cyflawni ei ofynion arbedion a chydbwyso'r gyllideb ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant a 2014/15?

Rhagwelodd Heddlu De Cymru arbedion o £32.98m dros bedair blynedd gyntaf yr adolygiad gwariant (2011/12 i 2014/15), sy'n cyfateb i 11 y cant o wariant refeniw gros 2010/11 yr heddlu. Dros y cyfnod, cafwyd arbedion yn y cyllidebau cyflogau ac nad ydynt yn gyflogau, er mwyn mantoli'r cyllidebau erbyn 2014/15. Dros yr un cyfnod, rhagwelodd yr holl heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr ofyniad cyfanswm arbedion o £2.53bn, sy'n cyfateb i 18.2 y cant o wariant refeniw gros 2010/11 ar gyfer Cymru a Lloegr

**Ffigwr 5: Newid a amcangyfrifir mewn gwariant o 2011/12 i 2014/15, ac arbedion arfaethedig a ragwelir mewn gwariant ar gyfer 2015/16 i 2018/19, yn erbyn llinell sylfaen gwariant refeniw gros 2010 ar gyfer yr Heddlu De Cymru a Chymru a Lloegr**




**Ffynhonnell: Data plismona mewn cyni HMIC, casglu data effeithlonrwydd HMIC a data Dadansoddiad Amcan yr Heddlu y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)**

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 3, gweler Atodiad B**

Mae'r heddlu wedi gosod cyllidebau cytbwys ac wedi cyflawni ei darged arbedion ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2014/15. Mewn gwirionedd, yn 2014/15 roedd yr heddlu wedi gwario dan ei gyllideb o £150,000, yn unol â rhagolygon hanner ffordd trwy'r flwyddyn.

Cadwodd yr heddlu gyfanswm cronfeydd wrth gefn o £19m ar 31st Mawrth 2015, yn cynnwys £9m mewn cronfeydd cyffredinol. Mae cronfeydd a glustnodwyd wedi eu rhoi i'r naill ochr i fodloni anghenion penodol, yn benodol buddsoddiad mewn technoleg newydd a gwelliannau ystâd; ond disgwylir y bydd y rhain yn cael eu defnyddio'n llawn dros y pedair blynedd nesaf. Mae cronfeydd wrth gefn yr heddlu yn dal i ostwng (yn unol â heddluoedd eraill), ond yn dal ar lefel ddigonol. Ni ragwelir y bydd y cronfeydd cyffredinol yn gostwng yn is na'r lefel ochelgar bresennol o £9m.

Mae Heddlu De Cymru wedi meithrin hanes da o reolaeth ariannol ac mae mewn safle da i daclo galwadau ariannol presennol.

## Pa mor dda mae'r heddlu wedi cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2015/16?

Mae gan Heddlu De Cymru gyllideb gytbwys arfaethedig o £278.1m ar gyfer 2015/16, sy'n cynnwys toriad mewn gwariant o £7.5m. Mae'n rhagweld yn arbedion eleni y bydd y lleihad yn cael ei rannu rhwng £3.9m o'r gyllideb cyflogau (52 y cant) a £3.6m (48 y cant) o'r gyllideb nad yw'n gyflogau yn arbedion eleni. Mae'r heddlu yn bwriadu bodloni ei leihad mewn gwariant heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i bontio. Ers llinell sylfaen 2010, ar ddechrau'r adolygiad o wariant, mae hyn yn cynrychioli arbediad o 14 y cant.

Mae'r heddlu wedi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2015/16, yn seiliedig ar dybiaethau doeth am gynnydd mewn prisiau. Mae rhagolwg y gyllideb yn cynnwys cynnydd o 5 y cant yn y praesept.[5] Mae arbedion eisoes wedi eu cyflawni ac mae cynlluniau ar gyfer cyflawni gweddill yr arbedion hyn wedi eu datblygu'n dda.

Mae gan yr heddlu gronfeydd digonol i fodloni ei anghenion. Ym Mawrth 2015, roedd cyfanswm cronfeydd yn £19m, yn cynnwys £9m mewn cronfeydd cyffredinol. Mae'r heddlu yn disgwyl y bydd ei gronfeydd a glustnodwyd yn gostwng dros y tair blynedd nesaf, trwy fuddsoddiad mewn technoleg newydd a blaenoriaethau eraill. Ar hyn o bryd, mae'n rhagweld ar gyfer 2018/19 y bydd cronfeydd yn £12m, yn cynnwys £9m mewn cronfeydd cyffredinol.


Mae Heddlu De Cymru yn adrodd praesept ar gyfer 2015/16 o £199.86, cynnydd o £9.52 o'r flwyddyn flaenorol, a ddylai alluogi'r heddlu i gynnal niferoedd swyddogion yr heddlu ar y lefel ostyngedig o 2800.

## Sut mae'r heddlu wedi uchafu cyfleoedd cyllido eraill?

Mae ffigwr 6 yn arddangos faint o gyllid mae'r heddlu wedi ei dderbyn o grant llywodraeth ganolog, fel praesept gan gynghorau lleol trwy'r dreth gyngor, a gan ffynonellau eraill, megis grantiau arbennig y Swyddfa Gartref. Mae Heddlu De Cymru yn disgwyl i'r gyfradd o'i gyllid a ddaw o gyllid llywodraeth y setliad craidd i leihau dros y blynyddoedd i ddod, tra'n rhagweld y bydd y gyfran o'i gyllid a ddaw o'r praesept (cyllid y dreth gyngor) yn cynyddu dros yr un cyfnod amser. Dylid nodi y daw cyllid setliad craidd y llywodraeth, o ran gwerth ariannol a chyfrannau o gyfanswm cyllid, a ddisgrifir yn ffigwr 6 o amcangyfrifon yr heddlu a gesglir yn rhan o gasgliad data archwiliad effeithlonrwydd HMIC. Ni ddylid ystyried y data hwn fel rhagolwg swyddogol. Mae'r Swyddfa Gartref yn y broses o ymgynghori ar newidiadau i fformwla cyllido'r heddluoedd ac felly gallai unrhyw ragolygon presennol newid yn ystod y cyfnod amser a amlygir.

[5] Praesept – cyllid a gesglir trwy'r dreth gyngor, yn hytrach na chyllid canolog a dderbynnir gan y Swyddfa Gartref ar ffurf grant blynyddol.

**Ffigwr 6: Cyfuniad a ragwelir o gyllid ar gyfer Heddlu De Cymru yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2020, o gymharu â heddluoedd Cymru**




**Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC**

Mae'r heddlu wedi bod yn mynd ar drywydd pob cyfle ar gyfer cyllid atodol, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn arbennig o ran eu canfod trwy ystod o bartneriaid. Gwnaethpwyd ceisiadau llwyddiannus i Gronfa Arloesi'r Heddlu, yn ogystal ag achosion busnes i Lywodraeth Cymru, a chyllid cydweithredu gyda Heddlu Gwent am brosiectau allweddol.

Ar gyfer 2014/15 a 2015/16 mae'r heddlu'n adrodd iddo wneud ceisiadau i'r gronfa arloesi ar gyfer:

- lleihau troseddu ac aildroseddu yn y grŵp oedran 18-25, gyda saith awdurdod lleol yn Ne Cymru;
- Gwasanaeth Cyhoeddus Tri Gwasanaeth a Chanolfan Rheoli Argyfwng ar y Cyd gyda sefydliadau gwasanaeth tân, achub ac ambiwlans lleol yr ardal;
- gweithio gyda llywodraeth leol ac asiantaethau iechyd i daclo troseddau treisgar, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- gwaith ar gamfanteisio ar blant a rhyw gyda Barnardo's, yr NSPCC a sefydliadau sector gwirfoddol ac ieuenctid a chymunedol;

- gweithio i daclo trais yn erbyn menywod a merched, gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Dyfed-Powys; a
- Prosiect FUSION, y rhaglen integreiddiad heddlu trosfwaol.

Mae cyfleoedd creu incwm eraill wedi cynnwys:

- ceisio lleihau costau eiddo a rhannu eiddo gyda sefydliadau eraill (y pwynt cymorth amlasiantaethol yn Abertawe, er enghraifft);
- y datblygiad (AVALON) gyda chyllid cyfalaf y Swyddfa Gartref i greu swyddfa drosedd ranbarthol ganolog;
- sefydlu canolfan tocynnau goryrru gydag awdurdodau lleol;
- cyllid plismona Maes Awyr Caerdydd gan y Swyddfa Gymreig;
- ariannu 200 o PCSOs gan y Swyddfa Gartref; a
- gwariant ar gynlluniau a gytunwyd gyda phartneriaid o Gronfa Ddiogelwch Cymunedol y PCC.

Mae'r heddlu'n bwriadu sicrhau oddeutu £7m y flwyddyn o ffynonellau incwm eraill.


## Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli gwariant?

Mae lefel cronfeydd wrth gefn yr heddlu a sut y rhagwelir y byddant yn newid dros amser wedi ei nodi yn ffigwr 7.

Adroddodd Heddlu De Cymru bod cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn yn £19.0m yn 2014/15. Mae'r rhain wedi eu didoli i sawl categori:

- cronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo – swm i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu i leddfu llif arian anwastad;
- cronfeydd a neilltuwyd (clustnodwyd) – mae'r rhain yn gronfeydd a neilltuwyd ar gyfer dibenion cyfalaf penodol;
- cronfeydd derbynebion cyfalaf – mae'r rhain yn elw o werthu asedau y gellir eu defnyddio ar gyfer dibenion cyfalaf penodol yn unig; a
- cyfalaf cyffredinol i gefnogi gwariant cyfalaf arfaethedig yn y dyfodol.

**Ffigwr 7: Dadansoddiad o gronfeydd sy'n weddill fel cyfran o wariant refeniw net yn y flwyddyn, a chyfanswm y cronfeydd sy'n weddill (£), ar gyfer 2014/15 i 2018/19**




**Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC**

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 3, gweler Atodiad B**

Mae gan yr heddlu hanes Excellent o fonitro gwariant a chyflawni arbedion effeithlonrwydd blwyddyn ar flwyddyn. Mae hyn wedi ei sicrhau trwy gyflawni cyllidebau cytbwys dros y cyfnod adolygiad o wariant diwethaf, sydd wedi creu arbedion o £33m (yn unol â chynlluniau).

Mae cyllidebau wedi eu rheoli'n ganolog ac yn amodol i graffu gofalus gan yr adran gyllid wrth osod y gyllideb, ac yna trwy gydol y flwyddyn. Mae'r tîm cyllid yn gweithio'n agos iawn gyda'r timau AD a newid i sicrhau y cyflawnir amcanion y gyllideb.

Mae rhai o'r arbedion effeithlonrwydd arwyddocaol wedi bod ar leihau oriau goramser; newid gweithlu; swyddogaethau swyddfa gefn cefnogaeth fusnes ; rhesymoli'r ystâd a'r fflyd; y canolfan gwasanaeth cyhoeddus unigol; a lleihau'r nifer o gyfleusterau dalfa.

## Pa mor dda mae cynlluniau ariannol yr heddlu yn adlewyrchu'r amcanion a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a throseddu'r PCC?

Mae cynlluniau'r PCC a'r prif gwnstabl wedi eu halinio'n agos. Maent yn llifo o'r blaenoriaethau a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a lleihau troseddu'r PCC i gynllun cyflawni'r prif gwnstabl, ac yna i'r gyllideb flynyddol.[6]

Mae blaenoriaethau'r PCC wedi eu cyfuno i bedair thema - plismona, cydweithio gyda sefydliadau eraill, cyfiawnder troseddol a datblygiad.

Mae cylch cynllunio'r heddlu yn rhedeg dros gyfnod cynllun yr heddlu a lleihau troseddu. Mae hyn yn hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau, yn darparu eglurder, cysondeb a llywodraethu, ac yn sicrhau iaith a dealltwriaeth gyffredin.

Mae'r PCC a'r prif gwnstabl wedi sefydlu perthynas weithredol gref, gyda'r un blaenoriaethau. Mae prif swyddog yr heddlu yn cydweithio gyda'r PCC trwy'r bwrdd newid ar y cyd a'r bwrdd cynllunio a pherfformiad ar y cyd, sydd wedi ei ategu trwy fynychu'r prif weithgorau eraill gyda'i gilydd.

## Pa mor dda mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth ariannol amserol a pherthnasol i swyddfa'r comisiynydd heddlu a throseddu (OPCC) ac a ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol?

Mae yna hanes da o ddarparu gwybodaeth reoli berthnasol ac amserol i ddeiliaid cyllidebau, y prif gwnstabl a'r OPCC. Mae'r PCC a'r prif gwnstabl yn derbyn gwybodaeth perfformiad ariannol rheolaidd, gydag adroddiadau a gynhyrchir yn chwarterol ac a drafodir ym mwrdd strategol y PCC a chyfarfodydd aur (strategol) y prif gwnstabl. Mae yna hefyd is-bwyllgor cyllid sy'n adrodd i'r bwrdd cynllunio a pherfformiad ar y cyd. Mae'r prif gwnstabl (mewn cyfarfodydd misol) a'r PCC (mewn cyfarfodydd deufisol) yn ystyried adroddiadau cyllideb.

Mae prif swyddog cyllid yr heddlu a thrysorydd yr OPCC yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd, wrth osod cyllidebau ac yna trwy gydol y flwyddyn. Mae yna ddealltwriaeth gyffredin o'r blaenoriaethau a osodwyd gan y PCC ac o'r tybiaethau ar gyfer cynlluniau tymor byr a chanolig (er enghraifft, ar lefelau praeseptau, cefnogaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer y PCSOs, defnyddio'r gronfa diogelwch cymunedol a cheisiadau o Gronfa Arloesi'r Heddlu).

[6] Mae cynllun yr heddlu a lleihau troseddu yn disgrifio'r weledigaeth a'r prif flaenoriaethau ar gyfer plismona a diogelwch cymunedol. Mae cynllun cyflawni'r prif gwnstabl yn cefnogi'r cynllun hwn ac yn amlinellu sut mae Heddlu De Cymru yn cyflawni amcanion plismona a thargedau perfformiad a osodwyd.

Mae'r heddlu yn gweithio tuag at hybu ei system ariannol FIRMS ymhellach i gynhyrchu adroddiadau mwy manwl a phenodol ar-lein, ar gyfer cyfnodau presennol a blaenorol.

## Faint mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer arbedion pellach posibl wedi eu datblygu?

Mae'r heddlu'n cydnabod y gall fod angen gwneud arbedion o £15.6m i fantoli ei gyllideb ar gyfer y cyfnod o 2015/16 i 2018/19. Mae eisoes wedi gosod cyllideb wedi ei mantoli ar gyfer 2015/16, ac wedi nodi arbedion o £7.5m y dylid eu sylweddoli yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Yn ystod y tair blynedd sy'n weddill i 2018/19, mae'r heddlu wedi nodi arbedion gwerth am arian pellach o £8.1m trwy ei raglen newid. Fodd bynnag, mae cynlluniau yn dal i gael eu datblygu i lenwi'r bwlch cyllideb o £23.4m sy'n weddill ar gyfer 2018/19.

Mae gan yr heddlu hanes cryf o gyflawni arbedion arfaethedig, ac mae'n credu y gellir pontio'r bwlch yn y gyllideb trwy arbediad o 10 y cant a gyflawnwyd trwy ei gynlluniau i leihau galw ac atal troseddau yn weithredol, defnyddio technoleg ddigidol well a chynyddu sgiliau ei weithlu. Mae'r heddlu yn ymwybodol y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd am p'un a yw eisiau defnyddio'r arbediad a sylweddolwyd o wella ei reolaeth o alw i helpu cydbwyso ei gyllidebau i 2018/19, neu tuag at feysydd galw troseddau newydd. Mae eisoes wedi cyflawni cynllunio a modelu senario i'w alluogi i wneud dewisiadau gwybodus, os oes angen, am ddyfodol ei fodel plismona cymdogaeth, y nifer presennol o undebau rheoli bwrdeistref, a'r nifer o swyddogion yr heddlu.

Er nad yw'r heddlu wedi gwneud cynlluniau manwl eto ynghylch sut y gallai fodloni'r bwlch disgwyliedig yn y gyllideb o £23.4m ar gyfer 2018/19, mae'n amlwg ei fod yn gwybod beth fydd yn rhaid ei wneud o bosibl, a sut. Mae hefyd wedi sefydlu strwythur llywodraethu trwy ei raglen newid, a hanes profedig trwy'r fethodoleg ddarbodus i'w alluogi i gyflawni'r arbedion gofynnol.

## Crynodeb o ganfyddiadau

**Da**

Mae gan Heddlu De Cymru hanes cryf o fonitro gwariant a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Mae'r heddlu wedi gosod cyllidebau cytbwys ac wedi cyflawni ei darged arbedion ar gyfer y pedair blynedd at 2014/15. Roedd arbedion dros y cyfnod hwn yn dod i gyfanswm o £33m, neu tua 11 y cant o'i wariant refeniw blynyddol gros yn 2010/11.

Mae cyllideb yr heddlu ar gyfer 2015/16 yn seiliedig ar dybiaethau doeth. Mae'r heddlu mewn safle da i gyflawni arbedion o £7.4m trwy ei raglen newid a heb fod angen defnyddio cronfeydd. Mae'r heddlu wedi bod yn mynd ar drywydd pob cyfle ar gyfer cyllid atodol, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae cynlluniau'r comisiynydd heddlu a throsedd (PCC) a'r prif gwnstabl wedi eu halinio'n agos. Mae'r PCC a'r prif gwnstabl yn derbyn gwybodaeth perfformiad ariannol rheolaidd, gydag adroddiadau wedi eu cynhyrchu yn chwarterol.

Ar gyfer y tair blynedd i 2018/19, mae'r heddlu wedi nodi arbedion pellach o £8.1m. Fodd bynnag, mae cynlluniau yn dal i gael eu datblygu i lenwi'r bwlch cyllideb o £23.4m sy'n weddill ar gyfer 2018/19. Mae'r heddlu yn cydnabod graddfa arwyddocaol yr her ariannol ac mae'n hyderus y dylai ei raglen newid ei alluogi i ryddhau'r arbedion gofynnol. Mae wedi cwblhau cynllunio senario i asesu risgiau ac opsiynau ac mae'n datblygu cynlluniau at raid, gan gynnwys newidiadau i'r model gweithlu presennol. Mae ystyriaeth gynnar o'r risgiau hyn a gweithredu posibl i unioni yn arddangos agwedd flaengar yr heddlu.

## Atodiad A – Dyfarniadau HMIC

Y categorïau yw:

- rhagorol;
- da;
- angen gwelliant ; ac
- annigonol.

Gwneir dyfarniad o ran pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Wrth weithredu’r categorïau, mae HMIC yn ystyried:

bod effeithlonrwydd yr heddlu yn dda, neu'n rhagori ar y safon hon yn ddigonol i gael ei farnu i fod yn rhagorol;

mae effeithlonrwydd yr heddlu angen gwelliant am nad yw eto'n perfformio'n ar lefel dda, ac/neu mae yna rai gwendidau yn y sefydliad; neu

mae effeithlonrwydd yr heddlu yn annigonol oherwydd ei fod yn sylweddol is nag y gellid disgwyl yn rhesymol.

# Atodiad B – Rhagor o wybodaeth ynghylch y data yn ffigurau 3, 4, 5 a 7.

## Ffigwr 3

Newidiadau arfaethedig i swyddi cyfatebol i lawn amser (FTE) swyddogion yr heddlu mewn rolau rheng flaen weithredol, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth busnes yn yr heddlu/cwnstabliaeth, 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018.

Daw'r data a ddefnyddiwyd yn ffigwr 3, ar gyfer Mawrth 2010 a Mawrth 2015 o ddychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref 601 ac nid yw'n cynnwys gweithlu a ddyrannwyd dan gategori '62 arall' tra bod y data a ddefnyddiwyd yn ffigwr 4 ar gyfer Mawrth 2010 a Mawrth 2015 o ddychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref 502 ac mae'n cynnwys y categori hwn. Felly efallai na fydd cyfansymiau data yn cyd-fynd yn union.

## Ffigwr 4

Newidiadau arfaethedig mewn gweithlu FTE o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer yr heddlu/cwnstabliaeth o gymharu â Chymru a Lloegr.Mae'r ffigurau yn nhabl 4 wedi eu talgrynnu i'r person cyfan agosaf, cyfatebol i amser llawn (FTE), ac felly gallai fod ychydig yn wahanol i'r union ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad.

Ar gyfer data ar 31 Mawrth 2010 a 31 Mawrth 2015 rydym wedi defnyddio data dychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref sy'n FTE 'gwir', tra ar gyfer y rhagolygon ar gyfer Mawrth 2018 yn rhagolygon seiliedig ar gyllideb ac felly'n debygol o ystyried cyfradd swyddi gwag yn ddibynnol ar strategaeth gynllunio heddlu/cwnstabliaeth. Mewn rhai achosion felly efallai na fydd cynnydd mewn swyddi a gyllidebwyd yn dangos bod yr heddlu/cwnstabliaeth wir yn cynllunio i gynyddu eu gweithlu wrth symud ymlaen. Mewn achosion eraill, efallai y bydd heddluoedd yn bwriadu lleihau eu gweithlu ond bod ganddynt gyfradd swyddi gwag uchel bresennol sy'n celu'r newid hwn.

Oherwydd y darlun cymhleth ac esblygol o gydweithrediad rhwng gweithluoedd heddluoedd cymdogol, nid yw pob newid yn ffigurau'r gweithlu yn real o ran y gweithlu sydd ar gael. Byddai cynnwys cynghreiriau strategol ac/neu unedau troseddau cyfundrefnol (ROCU) yn enghraifft o hynt newidiadau dros gyfnod o amser ar sgiw. Felly mae angen ystyried cynnydd neu leihad llym dros amser yn ofalus gan y gallant gynrychioli newidiadau cyfrifyddu yn ymwneud â sut mae staff wedi eu dyrannu i heddluoedd, nid newidiadau real yn lefelau staffio.

Ar adeg yr archwiliad, roedd yr hinsawdd ariannol yn y dyfodol yn ansicr. Roedd sawl heddlu mewn sefyllfa ble nad oedd ganddynt gynlluniau wedi eu cadarnhau / cymeradwyo ar gyfer rhagolygon gweithlu.

Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau a ddarperir yn aml yn amcangyfrifon heb eu cadarnhau a ddarperir i gynorthwyo HMIC yn y rhaglen archwilio, ac ni ddylid eu hystyried i fod yn gynllun cadarn ar gyfer y tirlun plismona yn y dyfodol. Mae’r sylwadau hyn yn berthnasol i ffigwr 3 a ffigwr 4.

## Ffigwr 5

Newid a amcangyfrifir mewn gwariant o 2011/12 i 2014/15, a newid a ragwelir mewn gwariant ar gyfer 2015/16 i 2019/20, yn erbyn llinell sylfaen GRE 2010 ar gyfer yr heddlu a Chymru a Lloegr

Mae ffigwr 5 yn dangos sut mae gwariant yr heddlu wedi newid yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant, o gymharu â'r cyfanswm newid mewn gwariant ar gyfer yr holl heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Ar gyfer 2015/16 ymlaen, cafwyd newid mewn methodoleg o gymharu â'r rhaglen Gwerthfawrogi'r Heddlu. Nid yw'r gofyniad arbedion bellach yn wariant refeniw gros (GRE) chwyddedig llai gwariant ond yn hytrach swm yr arbedion arfaethedig a defnydd o gronfeydd wrth gefn i bontio bwlch cyllid yn y flwyddyn. Mae'r newid hwn wedi ei ddynodi gan linell doredig fertigol ar y siart. Mae'r siart yn dangos arbedion arfaethedig (yn cynnwys defnydd o gronfeydd i bontio bwlch cyllid yn y flwyddyn) mewn blynyddoedd i ddod, wedi ei gyfrifo yn defnyddio'r arbedion arfaethedig ar gyfer cyllidebau cyflog ac nad ydynt yn gyflog a ddarparwyd i HMIC ar adeg casglu'r data (Chwefror 2015). Mae rhai heddluoedd wedi darparu ffigurau ar gyfer arbedion yr oeddynt wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar y pwynt hwnnw yn unig, tra bod eraill wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod cyfan. Felly nid yw gofynion arbedion bychan o reidrwydd yn cyfateb i her arbedion bychan yn y dyfodol.

## Ffigwr 7

Dadansoddiad o gronfeydd sy'n weddill fel cyfran o wariant refeniw net yn y flwyddyn, a chyfanswm y cronfeydd sy'n weddill (£), ar gyfer 2014/15 i 2018/19

Yn ôl arolwg o gyfarwyddwyr ariannol a gwblhawyd gan y Comisiwn Archwilio[7], ystyrir yn gyffredinol bod tri i bump y cant o wariant refeniw net yn lefel ddoeth o gronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo ar gyfer dibenion cynllunio seiliedig ar risg.

Sylwer y cedwir pob categori o gronfeydd wrth gefn ar gyfer yr heddlu/cwnstabliaeth gan y PCC ar wahân i Ddinas Llundain a'r gwasanaeth heddlu Metropolitan, ble mae Corfforaeth Dinas Llundain a'r MOPAC yn cadw'r cronfeydd yn y drefn honno.

[7] *Striking a balance: Improving councils’ decision making on reserves,* Comisiwn Archwilio, Rhagfyr 2012. Ar gael o http://webarchive.nationalarchives.gov.uk